Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, APS
Rhif y fersiwn:	2
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	18 Mehefin 2022
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweihredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	Mehefin 2022
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2025
Y fersiwn a ddisodlir:	1
Dogfennau cysylltiedig:	Polisi Bwlio ac Aflonyddu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant Polisi Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant Polisi Atal Athrofa Padarn Sant Polisi Disgyblu I Ddysgwyr Achlysurol Polisi Disgyblu I Ddysgwyr Arferol Polisi Cwynion Athrofa Padarn Sant Polisi Diogelu yr Eglwys yng Nghymru

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	**Dyddiad**	**Fersiwn**	**Dyddiad**

2	**Mehefin 2022**	Kathryn Delderfield	• Dogfennau perthnasol wedi eu adolygu • Adolygu adran gyfricnahedd • Diwygio nodweddion warchodedig • Rhai diwygiadau er mwyn eglurder

Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Nodau
4. Ymrwymiad
5. Gweithredu
6. Diffiniad
7. Ymddygiadau
8. Cymhwyso'r Polisi

9 Cyfrinachedd

2.Cyflwyniad

Nid yw Padarn Sant yn goddef unrhyw fath o aflonyddu, bwlio neu fictimeiddio ac yn disgwyl i bob aelod o gymuned Padarn Sant (gan gynnwys dysgwyr, staff, gwirfoddolwyr ac unrhyw unigolion eraill sy'n cyfrannu at weithgareddau Padarn Sant), ei ymwelwyr a chontractwyr drin ei gilydd gyda pharch, cwrteisi ac ystyriaeth.

Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i feithrin diwylliant Cristnogol cynhwysol a gofalgar sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cynnal amgylchedd gwaith, dysgu a chymdeithasol lle mae hawliau ac urddas pawb yn cael eu parchu.

Mae staff hefyd yn dod o dan Bolisi Bwlio ac Aflonyddu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

3. Nodau

- Hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol lle mae pobl yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.
- Ei gwneud yn glir bod aflonyddu a fictimeiddio yn annerbyniol a bod gan bawb sy'n cyfrannu at Badarn Sant rôl yn y gwaith o greu amgylchedd heb unrhyw aflonyddu.
- Darparu fframwaith cymorth ar gyfer y rhai sy'n teimlo eu bod wedi bod yn destun aflonyddu neu fictimeiddio.
- Darparu mecanwaith y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chwynion pryd bynnag y bo hynny'n bosibl yn brydlon. (Bydd cwynion sy'n gysylltiedig â staff yn cael eu datrys o dan Bolisi Bwlio ac Aflonyddu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru).

4. Ymrwymiad

Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Creu amgylchedd cadarnhaol lle mae'r holl ddysgwyr a staff yn cael eu parchu, yn derbyn cyfleoedd datblygu a chamu ymlaen ac yn gallu gwneud y mwyaf o'r galluoedd. Gan feithrin diwylliant cynhwysol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chynnal amgylchedd gweithio, dysgu a chymdeithasol lle mae hawliau ac urddas pawb sy'n cyfrannu at Badarn Sant yn cael eu parchu a lle mae gwahaniaethau unigolion a chyfraniadau'r holl staff, dysgwyr a chyfranogwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Mae Padarn Sant yn dathlu ac yn annog amrywiaeth ym mhob rhan o'i gymuned.
- Nodi a dileu gwahaniaethu annheg neu anghyfreithlon ymhlith pawb rydym ni'n ymwneud â nhw. Ni fydd unrhyw aelod o Badarn Sant, neu ymgeisydd i Badarn Sant yn cael eu trin yn annheg neu'n anghyfreithlon oherwydd nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 sef anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, hil (gan gynnwys lliw, tarddiad ethnig/cenedlaethol neu genedligrwydd, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, nac yn wynebu gwahaniaethu diangen ar sail oedran.

- Creu amgylchedd gwaith a dysgu sy'n rhydd o aflonyddu, bwlio, fictimeiddio a gwahaniaethu anghyfreithlon gan ddisgwyl i bawb sy'n cyfrannu at waith Padarn Sant drin ei gilydd gyda pharch, cwrteisi ac ystyriaeth bob amser.
- Rhoi ystyriaeth o ddifrif i gwynion am aflonyddu, bwlio, fictimeiddio a gwahaniaethu anghyfreithlon gan bawb sy'n rhan o waith Padarn Sant.
- Gwrthod pob ffurf ar wahaniaethu anghyfreithlon ymysg ein staff, gan gynnwys ym meysydd tâl a buddion, amodau a thelerau cyflogaeth, ymdrin â chwynion a disgyblu, diswyddo, colli gwaith, absenoldeb i rieni, ceisiadau am weithio'n hyblyg, a dethol ar gyfer cyflogaeth, dyrchafiad, hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu eraill.

5. Gweithredu

Felly, bydd Padarn Sant yn:

- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu a chamu ymlaen ar gael i'r holl staff, a fydd yn cael eu helpu a'u hannog i ddatblygu eu llawn botensial.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch recriwtio dysgwyr a staff a/neu gyflogaeth ar sail teilyngdod.
- Sicrhau bod polisïau Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru o ran arferion a gweithdrefnau cyflogaeth yn cael eu dilyn.
- Mae Monitro Blynyddol o Bolisi Cyfle Cyfartal i staff yn gyfrifoldeb i'r Corff Cynrychiolwyr. Mae Athrofa Padarn Sant yn monitro sut mae'r Polsi Cyfloedd Cyfartal yn gweithio yn ymarferol i ddysgwyr ac yn gweithredu fel bo'r angen i ymdrin â unrhyw fatrion.
- Hysbysu holl aelodau'r uwch reolwyr, rheolwyr llinell a gweithwyr eraill a'r myfyrwyr am eu hawliau a'u cyfrifoldebau dan y polisi hwn.
- Hysbysu'r holl staff, dysgwyr a gwirfoddolwyr y gallant hwy, ynghyd â'u cyflogwyr, gael eu dwyn i gyfrif am weithredoedd o aflonyddu, bwlio, fictimeiddio a gwahaniaethu anghyfreithlon, yn ystod eu cyflogaeth, yn erbyn pob aelod o gymuned Padarn Sant, ei ymwelwyr a'r cyhoedd.
- Ymateb i bob cwyn am aflonyddu, bwlio, fictimeiddio a gwahaniaethu anghyfreithlon gan gydweithwyr, myfyrwyr, ymwelwyr, y cyhoedd ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â gweithgareddau Padarn Sant.

Mae Padarn Sant yn monitro cyfansoddiad y gweithlu o safbwynt gwybodaeth fel oedran, rhyw, cefndir ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo, ac anabledd wrth

annog cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac wrth gyflawni'r nodau a'r ymrwymiadau a nodir yn y polisi cydraddoldeb.

6. Diffiniad

Aflonyddu yw lle mae un person yn ymhél ag ymddygiad digroeso neu nad oes galw amdano gyda'r diben neu'r effaith o andwyo ar urddas person arall, (mae gan bob unigolyn yr hawl i gael ei werthfawrogi, ei barchu a'i drin mewn ffordd sy'n gywir yn foesol) neu greu amgylchedd brawychus, gelyniaethus, diraddiol, gwaradwyddus neu sarhaus iddynt. Nid oes angen i berson fod wedi nodi'n glir ar y pryd fod yr ymddygiad hwn yn ddigroeso iddo fod yn aflonyddu.

Mae gwahanol fathau o aflonyddu, a allai gynnwys:

- Mae bwlio yn fath o aflonyddu a allai gael ei nodweddu fel ymddygiad ymosodol, bygythiol, maleisus neu sarhaus, neu gamddefnyddio pŵer drwy ffyrdd a fwriedir i danseilio, sarhau, dirmygu neu anafu'r derbynnydd.
- Aflonyddu rhywiol yw aflonyddu sydd naill ai o natur rywiol, neu sy'n seiliedig ar ryw person ac sy'n cael ei ystyried yn ddiangen neu'n ymosodiad ar y person dan sylw.
- Math o aflonyddu ar ffurf sylw digroeso neu obsesiynol yw stelcio, a gall gynnwys dilyn y dioddefwr neu ei fonitro (gweler ymddygiadau isod).
- Mae fictimeiddio yn digwydd pan fydd unigolyn yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill am ei fod wedi cymryd camau i fynnu ei hawliau cyfreithiol neu wedi cynorthwyo rhywun arall gyda'i hawliau cyfreithiol i wneud yr hyn mae'n gredu sy'n gŵyn ddiffuant o gamdriniaeth.

7. Ymddygiadau

Mae Padarn Sant yn credu bod aflonyddu, bwlio, gwahaniaethu anghyfreithlon a fictimeiddio yn ymddygiad sy'n tanseilio lles y person dan sylw a gallai hefyd effeithio'n niweidiol ar eu perfformiad. Nid yw ymddygiad o'r fath yn rhan o ddiwylliant lle mae dysgwyr, staff ac eraill yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Maent hefyd yn anghydnaws â'r gwerthoedd Cristnogol y mae Padarn Sant wedi seilio ei hun arnynt. Gellir cyflawni gweithgarwch sy'n gyfystyr ag aflonyddu:

- Drwy ymddygiad wyneb yn wyneb ag unigolyn.

- Naill ai ar lafar neu'n gorfforol.
- Tuag at un unigolyn neu fwy.
- Drwy fathau eraill o gyfathrebu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfathrebu ysgrifenedig a chyfathrebu drwy unrhyw fath o gyfrwng electronig neu ddyfais cyfathrebu symudol: gallai ymddygiad o'r fath dorri Polisi TG Padarn Sant hefyd.
- Yn uniongyrchol i'r person dan sylw, neu i drydydd parti mewn amgylchedd astudio neu weithle cyffredinol sy'n creu diwylliant sy'n goddef aflonyddu neu fwlio.

Mae aflonyddu yn cael ei nodweddu gan, ond heb fod yn gyfyngedig i ymddygiad fel unrhyw un o'r ymddygiadau digroeso canlynol:

- Cysylltiad corfforol digroeso, yn amrywio o ymyrryd ar ofod rhywun i ymosodiad (mae hyn yn cynnwys aflonyddu rhywiol).
- Gelyniaeth agored, bygythiadau llafar neu gorfforol.
- Sylwadau neu iaith corff tramgwyddus, sylwadau sarhaus, jôcs a thynnu coes ar sail hil, crefydd, rhyw neu 'nodweddion gwarchodedig' eraill.
- Sïon maleisus, ymddygiad neu sylwadau sarhaus, ymosodol, codi cywilydd neu nawddoglyd mewn person drwy ddulliau electronig.
- Gweiddi'n barhaus, sarhau, bygwth, difrïo neu ddychryn unigolyn.
- Ymddygiad sy'n achosi'r dioddefwr i deimlo'i fod yn cael ei fygwth, ei sarhau, ei ddifrïo neu ei aflonyddu, fel tynnu coes cyson a/neu feirniadaeth ddiraddiol.
- Beirniadu unigolyn yn gyson heb ddarparu cymorth adeiladol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am berfformiad.
- Gorlwytho unigolyn yn gyson gyda gwaith na ellir disgwyl iddo/iddi ei wneud yn rhesymol.
- Bygwth datgelu neu ddatgan rhywioldeb neu anabledd person i eraill heb eu caniatâd.
- Ynysu rhywun o'r gweithle neu'r lle astudio arferol, o sgyrsiau neu o ddigwyddiadau cymdeithasol.
- Cyhoeddi, dosbarthu neu arddangos lluniau neu ddeunyddiau pornograffig, hiliol, neu sy'n sarhaus fel arall. Beirniadaeth ddi-sail gyson am berfformiad neu dasgau gwaith, dyrannu gwaith a chyfrifoldebau yn annheg neu gau rhywun allan o sgyrsiau arferol y gweithle neu o ddigwyddiadau cymdeithasol.

Nid yw bwriadau'r aflonyddwyr honedig yn cael eu pennu bob tro yn ôl a oes aflonyddu wedi digwydd. Bydd canfyddiad yr achwynydd ac i ba raddau mae'r canfyddiad yn rhesymol o ystyried yr holl amgylchiadau rhesymol hefyd yn berthnasol. Nid oes angen

i'r derbynnydd fod wedi nodi'n eglur bod yr ymddygiad yn ddigroeso iddo fod yn achos aflonyddu.

Nid yw bod dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu fod wedi meddwi fel arall yn esgus am aflonyddu.

Mae bwlio yn cael ei nodweddu gan, ond heb fod yn gyfyngedig i ymddygiad fel unrhyw un o'r ymddygiadau ailadroddus a digroeso canlynol:

- Pryfocio cyson
- Beirniadaeth ddigynsail reolaidd o berfformiad yn y gwaith neu gynnydd academaidd
- Dyrannu gwaith a chyfrifoldebau yn annheg
- Cau rhywun allan o sgyrsiau arferol neu ddigwyddiadau cymdeithasol

Mae aflonyddu rhywiol yn cael ei nodweddu gan, ond heb fod yn gyfyngedig i ymddygiad fel unrhyw un o'r ymddygiadau digroeso canlynol:

- Iaith corff amhriodol, er enghraifft syllu neu ystumiau.
- Sylwadau, cynigion neu ystumiau awgrymog, pin-yps, graffiti.
- Fflyrtio rhywiol digroeso, cynigion, awgrymiadau neu bwysau am weithgarwch rhywiol, lle nodwyd yn glir nad oedd hyn yn cael ei groesawu.
- Cyffwrdd digroeso neu unrhyw gyswllt corfforol arall o natur rywiol.
- Jôcs cignoeth rhywiol, sylwadau neu ensyniadau.
- Awgrymiadau y gallai ffafrau rhywiol fod yn hwb i yrfa/gradd academaidd neu gyflogaeth myfyriwr/aelod staff, neu y gallai gwrthod effeithio ar hynny.
- Sylwadau sy'n bychanu neu'n diraddio ar sail rhyw, neu ddangos deunydd cignoeth rywiol unrhyw le ar safle neu ar blatfformau electronig Padarn Sant.

Mae Padarn Sant yn ystyried aflonyddu rhywiol (beth bynnag yw'r cymhelliant) fel ffurf ar wadu cyfle cyfartal sy'n cael yr effaith o sarhau a difrïo'r person dan sylw. Hefyd, gallai aflonyddu rhywiol fod yn fater hawliau cyflogaeth ac yn fater troseddol, fel mewn honiadau o ymosodiad rhywiol.

Mae aflonyddu yn drosedd o dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 hyd yn oed pan fo'r achos aflonyddu yn ymwneud dim â'r nodweddion gwarchodedig.

Mae stelcio yn cael ei nodweddu gan, ond heb fod yn gyfyngedig i ymddygiad fel unrhyw un o'r ymddygiadau digroeso canlynol:

- Dilyn person.
- Cysylltu â, neu geisio cysylltu â pherson drwy unrhyw ffordd.

- Cyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddeunydd sy'n ymwneud neu'n honni ei fod yn ymwneud â pherson, neu'n honni ei fod yn deillio o berson.
- Monitro defnydd person o'r rhyngrwyd, e-bost neu unrhyw ffurf arall ar gyfathrebu electronig, ac eithrio gan staff awdurdodedig, fel y disgrifir ym Mholisi TG Padarn Sant a Pholisi Diogelwch a Chamddefnyddio Cyfrifiadurol Cyrff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.
- Ymyrryd ag unrhyw eiddo sydd ym meddiant person.
- Gwylio neu ysbïo ar berson, gan gynnwys drwy ddefnyddio CCTV neu oruchwyliaeth electronig, ac eithrio goruchwyliaeth ddiogelwch gyfreithiol a awdurdodir gan yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd Padarn Sant yn ystyried mai fictimeiddio fydd unrhyw achos lle mae person yn cael ei drin yn niweidiol oherwydd ei fod wedi, mewn ewyllys da:

- Gwneud honiad o aflonyddu neu wedi nodi bwriad i wneud y cyfryw honiad.
- Cynorthwyo neu gefnogi person arall i gyflwyno'r cyfryw honiad.
- Cymryd rhan mewn ymchwiliad i gŵyn.
- Cymryd rhan mewn unrhyw wrandawiad disgyblu yn deillio o ymchwiliad.
- Cymryd unrhyw gamau eraill mewn cysylltiad â'r Polisi a'r Weithdrefn hon neu os oes amheuaeth iddo/i wneud hynny.

Mae Padarn Sant yn ceisio diogelu unrhyw aelod o'i gymuned rhag fictimeiddio, sy'n ffurf ar gamymddwyn a allai arwain at broses ddisgyblu.

8. Cymhwyso'r Polisi

Dylid cyfeirio unrhyw aelod o staff Padarn Sant sy'n credu ei fod wedi bod yn destun unrhyw ffurf ar aflonyddu neu bod yn dyst iddo gyfeirio at Bolisi Bwlio ac Aflonyddu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Dylai unrhyw un arall sy'n teimlo eu bod wedi bod yn destun unrhyw ffurf ar aflonyddu neu'n dyst iddo mewn unrhyw ffurf wrth ymwneud â Phadarn Sant gyfeirio'r mater at y Prifathro, i'w ymchwilio drwy Bolisi Cwynion Athrofa Padarn Sant. Bydd y mater yn cael ei drin gyda sensitifrwydd a thegwch.

Bydd honiadau o aflonyddu, ar ba bynnag ffurf, yn cael eu hystyried o ddifrif. Mae cwynion difrifol yn erbyn staff a dysgwyr sy'n cael eu cynnal yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a byddant yn cael eu trin o dan Bolisi Disgyblu i Ddysgwyr Arferol, Athrofa Padarn Sant, Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Achlysurol, neu os yw'r honiad yn erbyn aelod o staff at Bolisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

Os oes trosedd wedi'i chyflawni o bosibl, neu risg o niwed efallai na fydd y weithdrefn aflonyddu berthnasol yn briodol. Byd yr achosion hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ymosodiad difrifol neu fygythiad o ymosodiad difrifol. Caiff rhain eu cyfeirio at yr awdurdodau perthnasol.

Os pennir bod y sawl sy'n cwyno yn gwybod neu y gellid disgwyl yn rhesymol ei fod yn gwybod nad oedd sail i gŵyn, gellir barnu bod yr honiad o aflonyddu yn un trallodus neu'n faleisus, ac efallai y bydd camau disgyblu yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Byddai hyn yn cael ei drafod dan y Polisi Disgyblu perthnasol. Ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd os bernir bod cwyn nas profir wedi'i gwneud mewn ewyllys da.

9. Cyfrinachedd

Bydd Athrofa Padarn Sant yn ymwybodol o'i goblygiadau o dan rheoliadau diogelu data a Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â unrhyw wybodaeth a rhennir am aflonyddu honedig.

Bydd gwybodaeth yn ymwneud â'r aflonyddu honedig yn cael ei ddatgelu i cyn lleied o fobl a phosib.

Lle fo'r risg o niwed neu fod trosedd honedig wedi digwydd, mae'n bosib y bydd angen cyfeirio'r wybodaeth at Dîm Diogelu yr Eglwys yng Nghymru neu'r awdurdod heddlu lleol.